

Nodyn Cyngor 22 - Defnyddio Paneli Lamedig Pwysedd Uchel mewn systemau waliau allanol

Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn rhoi cyngor ar ddefnyddio Paneli Lamedig Pwysedd Uchel mewn systemau waliau allanol.

Mae'r Nodyn Cyngor hwn wedi'i anelu at berchenogion adeiladau preswyl sydd â llawr 18m neu'n uwch uwchlaw lefel y ddaear, ond gall yr egwyddorion fod yn gymwys i fathau eraill o adeiladau hefyd.

1. Crynodeb

1.1. Cyhoeddodd Panel Arbenigol Llywodraeth y DU Nodyn Cyngor 14

(https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/765761/Expert_Panel_advice_note_on_non-ACM.pdf), a gafodd ei gyhoeddi gyntaf ym mis Rhagfyr 2017 a'i ddiweddarau ym mis Rhagfyr 2018, ar systemau waliau allanol nad ydynt yn cynnwys Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm. Mae'r Panel Arbenigol yn parhau i gefnogi'r cyngor hwn. Bwriedir i'r nodyn atodol hwn ar baneli lamedig pwysedd uchel helpu perchenogion adeiladau i ddilyn y camau yn Nodyn Cyngor 14 a dylid ei ddarllen ar y cyd ag ef.

1.2. Mae perfformiad tân paneli lamedig pwysedd uchel yn amrywio'n fawr iawn ac mae'n bwysig bod perchenogion adeiladau yn ymwybodol o berfformiad tân y paneli a osodwyd ar eu hadeilad(au).

1.3. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cynnal prawf BS8414 ar system gladin sy'n cynnwys panel lamedig pwysedd uchel â deunydd gwrthdan (Dosbarth B-s1, d0) ynghyd ag inswleiddiad gwllân carreg. Bodlonodd y system hon y meini prawf perfformiad yn BR135. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi barn y Panel Arbenigol y gall y cyfuniad hwn o ddeunyddiau fod yn ddiogel ar adeiladau sy'n bodoli eisoes, ond fel yn achos systemau cladin eraill, mae hyn hefyd yn dibynnu ar y ffordd y caiff ei osod (gan gynnwys ei osod fel system gyfan, graddau a threfniant).

1.4. Mae systemau sy'n defnyddio paneli lamedig pwysedd uchel o Ddosbarth C neu D o'r dosbarthiad Ewropeaidd yn annhebygol iawn o wrthsefyll lledaeniad tân yn ddigonol. Hefyd, mae systemau sy'n defnyddio unrhyw fath o baneli lamedig pwysedd uchel (Dosbarth B, C neu D) sy'n cynnwys deunydd inswleiddio llosgadwy yn annhebygol iawn o wrthsefyll lledaeniad tân yn ddigonol. Dylai perchenogion adeiladau sydd â'r systemau hyn gymryd camau ar unwaith yn unol â Nodyn Cyngor 14.

1.5. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi barn y Panel Arbenigol nad yw lefel y risg o systemau lamedig pwysedd uchel anniogel mor uchel â risg systemau anniogel sy'n defnyddio paneli Categori 3 Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm.

Felly, mae cyngor y Panel Arbenigol yn dal yn glir y dylai'r gwaith o dynnu systemau anniogel sy'n defnyddio paneli Categori 3 Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm fod yn flaenoriaeth lwyr i berchenogion adeiladau a'r sector, ac wedyn y dylid cymryd camau ar unwaith i adfer systemau lamedig pwysedd uchel anniogel. Er mwyn osgoi amheuaeth, dylid tynnu paneli Categori 3 Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm a chymryd camau i adfer systemau lamedig pwysedd uchel anniogel mor fuan â phosibl.

2. Pennu perfformiad tân panel lamedig pwysedd uchel

- 2.1. Fel arfer, mae paneli lamedig pwysedd uchel ar gael mewn amrywiaeth eang o liwiau a gorffeniadau sy'n eu gwneud yn atyniadol fel ffordd o gyflwyno lliw a gorffeniadau gwahanol i ffasâd allanol.
- 2.2. Fel arfer, caiff paneli lamedig pwysedd uchel eu gwneud drwy osod dalenni o bren neu ffeibr papur ar ben ei gilydd â haenau o resin rhyngddynt a'u bondio o dan wres a phwysedd. Weithiau, mae panel lamedig pwysedd uchel yn cynnwys cemegion ychwanegol i wneud y panel yn wrthdan ond nid bob tro.
- 2.3. Gall dosbarthiad tân panel lamedig pwysedd uchel amrywio, yn dibynnu ar ei drwch a ph'un a yw'n ymgorffori cemegion gwrthdan ai peidio. Weithiau, cyfeirir at baneli lamedig pwysedd uchel yr ychwanegwyd cemegion gwrthdan atynt fel rhai "gradd FR" ac fel arfer maent yn cyrraedd Dosbarth B-s1, d0. Gall paneli a gynhyrchir heb ddeunydd gwrthdan berthyn i Ddosbarth C neu D, yn dibynnu ar drwch y panel.
- 2.4. Mae'n bwysig bod perchenogion adeiladau yn gwybod beth yw perfformiad tân y panel lamedig pwysedd uchel a ddefnyddir ar wal allanol eu hadeiladau. Ar gyfer unrhyw adeilad a godwyd, neu a adnewyddwyd, yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, dylai gwybodaeth fod ar gael mewn lluniadau fel y'i hadeiladwyd neu yn y llawlyfr Gweithredu a Chynnal a Chadw ar gyfer yr adeilad neu becyn "Rheoliad 38" o wybodaeth am ddiogelwch tân. Os nad yw hon ar gael, efallai y bydd perchenogion adeiladau am gysylltu â'r contractwr adeiladu gwreiddiol neu'r pensaer a/neu geisio cyngor gan weithiwr proffesiynol cymwys a fydd yn gallu eu cyngori ymhellach ar y camau i'w cymryd.
- 2.5. Efallai y bydd gwybodaeth am berfformiad tân y panel lamedig pwysedd uchel a osodwyd, os nad yw wedi'i darparu yn y wybodaeth uchod, ar gael gan y gweithgynhyrchydd ar yr amod bod perchennog yr adeilad yn gallu rhoi gwybodaeth am nodweddion y panel lamedig pwysedd uchel a osodwyd (h.y. lliw, lled, trwch, marciau adnabod).
- 2.6. Rydym yn ymwybodol o rai achosion o gyfnwid cynhyrchion. Os nad yw perchenogion adeiladau yn hyderus bod y panel rhagnodedig wedi cael ei osod, efallai y byddant am gymryd camau ychwanegol i gael sicrwydd ynglŷn â'r paneli a osodwyd. Gallant wneud hyn drwy gomisiynu cyngorydd

proffesiynol cymwys i dynnu'r paneli a osodwyd a'u harchwilio, a all gynnwys profion graddfa mainc. Os oes angen profi'r deunydd, dylai hyn gael ei wneud gan labordy profi sydd wedi'i achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig.

3. Paneli laminedig pwysedd uchel a ddefnyddir fel rhan o system waliau allanol

- 3.1. Ar gyfer adeiladau preswyl 18 metr o uchder neu'n uwch (neu lle mae gwaith adeiladu'n cael ei wneud ar adeiladau sy'n bodoli eisoes sydd â llawr 18 metr neu'n uwch uwchlaw lefel y ddaear), mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad ar wahardd deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau preswyl, gyda'r bwriad o gyflwyno newidiadau i'r rheoliadau adeiladu. Bydd y gwaharddiad arfaethedig yn cyfyngu deunyddiau i gynhyrchion sy'n cyrraedd Dosbarth A1 neu A2-s1,d0, sy'n unol â'r dosbarthiadau sy'n gymwys yn llawer o aelod-wladwriaethau eraill yr UE.
- 3.2. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw banel laminedig pwysedd uchel sydd wedi cyrraedd safon y dosbarthiad hwn ac felly ni ddylid defnyddio'r rhain yn y wal allanol wrth wneud gwaith adeiladu ar adeiladau preswyl newydd 18m o uchder neu'n uwch (h.y. adeiladau newydd, adnewyddu'r wal allanol neu newid defnydd sylweddol).
- 3.3. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cynnal prawf BS8414 ar raddfa fawr, a oedd yn cynnwys paneli laminedig pwysedd uchel (FR) (Dosbarth B-s1,d0) sydd ag inswleiddiad gwlân carreg. Dewiswyd y cyfuniad hwn am fod y Weinyddiaeth wedi cael adborth gan y diwydiant bod y math hwn o banel laminedig pwysedd uchel yn cael ei ddefnyddio'n aml ar adeiladau preswyl 18m o uchder neu'n uwch.
- 3.4. Llwyddodd y cyfuniad o baneli laminedig pwysedd uchel (FR) (Dosbarth B-s1,d0) ag inswleiddiad gwlân carreg a brofwyd i fodloni'r meini prawf perfformiad a bennwyd yn BR135 ac mae canlyniadau'r prawf ar gael ar wefan Gov.UK (<https://www.gov.uk/guidance/non-aluminium-composite-material-cladding>).
- 3.5. Nid oes unrhyw reswm dros gredu bod systemau sy'n cynnwys paneli laminedig pwysedd uchel (FR) a gwlân carreg a osodwyd yn ddigonol (gan gynnwys y broses o'u gosod, eu graddfa a'u trefniant) yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd.
- 3.6. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi barn y Panel Arbenigol na fyddai system waliau allanol sy'n defnyddio paneli laminedig pwysedd uchel Dosbarth C neu D wedi bodloni gofynion gweithredol y Rheoliadau Adeiladu, na'r cyngor cysylltiedig, ar adeg eu gosod, ac maent yn berygl tân sylweddol ar adeiladau dros 18m o uchder. Dylai perchenogion adeiladau sy'n nodi'r deunyddiau hyn

ar adeiladau preswyl dros 18m o uchder gymryd camau ar unwaith i adfer eu system, yn unol â Nodyn Cyngor 14.

- 3.7. Nid yw'r Panel Arbenigol wedi cael unrhyw dystiolaeth bod unrhyw banel laminedig pwysedd uchel o unrhyw ddsbarth yn bodloni'r meini prawf perfformiad a nodwyd yn BRE 135 os caiff ei ddefnyddio ar y cyd â deunydd inswleiddio llosgadwy. Os oes gan adeiladau sy'n bodoli eisoes unrhyw baneli laminedig pwysedd uchel sy'n cynnwys deunydd inswleiddio llosgadwy, dylid cymryd camau ar unwaith yn unol â Nodyn Cyngor 14.
- 3.8. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi barn y Panel Arbenigol yn yr ystyr nad yw lefel y risg o systemau laminedig pwysedd uchel anniogel mor uchel â risg systemau anniogel sy'n defnyddio paneli Categori 3 Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm. Felly, mae cyngor y Panel Arbenigol yn dal yn glir y dylai'r gwaith o dynnu systemau anniogel sy'n defnyddio paneli Categori 3 Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm fod yn flaenoriaeth lwyr i berchenogion adeiladau a'r sector, ac wedyn y dylid cymryd camau ar unwaith i adfer systemau laminedig pwysedd uchel anniogel. Er mwyn osgoi amheuaeth, dylid tynnu paneli Categori 3 laminedig pwysedd uchel anniogel a chymryd camau i adfer systemau laminedig pwysedd uchel anniogel mor fuan â phosibl.
- 3.9. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'i Phanel Arbenigol i ystyried p'un a oes unrhyw risgiau cynyddol yn gysylltiedig â systemau cladin eraill a materion diogelwch tân ac adeiladau ehangach mewn adeiladau uchel. Bydd y Panel Arbenigol yn rhoi rhagor o gyngor pan fydd y rhaglen profi cladin nad yw'n cynnwys Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm ar raddfa ganolog wedi'i chwblhau.